

YMGYNGHORYDD BUDD-DALIADAU LLES SGILIAU

TGP Cymru yw'r brif elusen yng Nghymru, sy'n cefnogi ac yn cynrychioli plant, pobl ifanc a theuluoedd bregus trwy ystod o brosiectau, hyfforddiant ac ymgyrchu. Ariennir gwasanaethau TGP Cymru gan lawer o arianwyr ac maent yn darparu gwasanaethau ledled Cymru.



Adran TGP Cymru: Gwasanaethau Eiriolaeth

Yn gyfrifol i: Rheolwr Gwasanaeth Sgiliau

Lleoliad: Casnewydd

Pwrpas y rôl:

Darparu Cyngor Budd-daliadau Lles i bobl ifanc 16-25 oed sy'n cyrchu prosiect Sgiliau a fydd yn darparu adeiladu sgiliau a phrofiad gwaith mewn siop elusen, crefft ac uwchgylchu. Bydd hyn yn cynnwys cefnogaeth ymarferol ac ysgogol i sicrhau bod pobl ifanc yn cwblhau eu lleoliad yn llwyddiannus.

Atebolrwydd / Cyfrifoldebau:

- Derbyn atgyfeiriadau yn unol â meini prawf y cytunwyd arnynt, ac egluro i bobl ifanc sut y gallai'r gwasanaeth eu cefnogi
- Paratoi / Annog / Cefnogi / Galluogi pobl ifanc i ymgysylltu a chyflawni'r canlyniadau a ddymunir
- Sicrhau fod pobl ifanc yn derbyn y budd-daliadau cywir a phriodol y mae ganddynt hawl iddynt ac yn cael eu hadolygu yn ôl yr angen i sicrhau'r hawl fwyaf posibl.
- Cynorthwyo'r Rheolwr i asesu allbynnau'r Gwasanaeth yn erbyn fframwaith y canlyniadau y cytunwyd arnynt trwy fonitro gweithgaredd a chasglu gwybodaeth briodol gan gynnwys adborth gan ddefnyddwyr gwasanaeth
- Datblygu elfennau o waith y Gwasanaeth yn unol â chyfarwyddyd y Rheolwr Cydymffurfio â pholisïau a gweithdrefnau TGP Cymru i gynnwys cyllid, adrodd, rheoli data a diogelu
- Hyrwyddo cyfle cyfartal ac ymarfer gwrth-wahaniaethol trwy'r gwaith a wneir yn y swydd
- Rhwydweithio'n briodol gyda chydweithwyr a'r gymuned, gan gynnwys datblygu ymwybyddiaeth o wasanaethau TGP Cymru ymhlith gweithwyr proffesiynol perthnasol.

Ymgymryd â dyletswyddau a chyfrifoldebau eraill sy'n ofynnol yn rhesymol gan y Sefydliad ac sy'n gyson â'r radd.

Dangosyddion Perfformiad

- Yn gyfrifol am gyflawni dangosyddion perfformiad a safonau ymarfer allweddol.
- Ansawdd gwasanaeth a chydymffurfiaeth yn erbyn safonau a gofynion statudol, rheoliadol, sefydliadol ac arfer gorau.
- Cyflawni amcanion a thargedau gwasanaeth ac unigol.

Cyfrifoldebau Ychwanegol:

Dim

Cyfrifoldeb Rheolwr Llinell (o 31/10/21):

0

Cyfrifoldeb rheoli cyllideb (o 31/10/21):

£0

Gradd:

MS6

Amodau gweithio:

18.5 awr yr wythnos gydag agwedd hyblyg tuag at yr wythnos waith a fydd yn cynnwys rhywfaint o weithio ar benwythnosau a gyda'r nos ac aros oddi cartref yn achlysurol dros nos i fynychu cyfarfodydd, cynadleddau neu hyfforddiant.

Mae angen teithio i wahanol leoliadau ledled Cymru a'r DU hefyd.

Cymwysterau

- Cymhwyster proffesiynol mewn cyngor Budd-daliadau Lles (dymunol)

Sgiliau a galluoedd / cymwyseddau

Bydd deiliad y swydd yn gallu:

- Cynhyrchu canlyniadau o ansawdd mewn modd amserol sy'n canolbwyntio ar wasanaeth ac wedi ymrwymo i sicrhau canlyniadau y cytunwyd arnynt
- Gweithio'n dda gyda chydweithwyr a phartneriaid a chydabod gwahanol syniadau, safbwyntiau a chefnidiroedd eraill
- Cynllunio a threfnu gwaith a rheoli amser yn effeithiol
- Cyfathrebu'n effeithiol h.y. mynegi gwybodaeth a syniadau mewn modd clir, cryno a chywir; gwrando'n weithredol a sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei rhannu.
- Bod yn agored i ddulliau a syniadau newydd, ymateb yn gadarnhaol i newid ac addasu'n gyflym i sefyllfaoedd newydd
- Chwilio am gyfleoedd ar gyfer dysgu parhaus a thwf proffesiynol.

Gwybodaeth / Profiad

Bydd deiliad y swydd yn gallu dangos dealltwriaeth gadarn a chofnod o gyflawniad yn y canlynol:

- Gweithio gyda phobl ifanc 16-25 oed mewn sefyllfaoedd cymhleth gan ddefnyddio dull sy'n seiliedig ar gryfderau
- Gweithio o fewn hawliau lles
- Gweithio o fewn y sector addysg / cyflogaeth
- Gweithio amlasiantaethol
- Diogelu.

Arall

- Arddangos gwerthoedd ac ymddygiadau TGP Cymru bob amser a'u hyrwyddo mewn eraill
- Ymrwymiad i gydraddoldeb ac amrywiaeth
- Trwydded yrru lawn a mynediad at gludiant (*Mewn rhai amgylchiadau gellir ystyried ymgeiswyr nad ydynt o ganlyniad i anabledd yn gallu gyrru.*)
- Y gallu i siarad Cymraeg (dymunol).